Adolygiad Blynyddol 2009

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Gair neu ddau am Barnardo's
Mae gwaith Barnardo's wedi bod yn newid bywydau ers bron i 150 o flynyddoedd. Fel elusen blant fwyaf y DU, rydym yn rhedeg dros 400 o brosiectau ar draws y DU. Rydym yn cynnal ysgolion, cyrsiau hyfforddiant galwedigaethol a bwytai y mae ein pobl ifanc yn gweithio ynddynt. Rydym yn darparu cefnogaeth i deuluoedd a phlant sy'n gadael gofal, gwasanaethau mabwysiadu a maethu, a llawer mwy. Mae Barnardo's hefyd yn ymgyrchu ar ran plant, gan ddwyn materion hanfodol i sylw'r cyhoedd a'r Llywodraeth. Rydym yn gwneud hyn oherwydd ein bod yn credu mewn plant.

Gweledigaeth Barnardo's yw y dylai bywydau pob plentyn a pherson ifanc fod yn rhydd rhag tlodi, camdriniaeth a gwahaniaethu.

Croeso gan Zainab

Un o ddefnyddwyr gwasanaeth Barnardo's

Tua 12 mis yn ôl euthum i wasanaeth Missing Barnardo's yn Huddersfield, Gorllewin Swydd Efrog. Mae'r gwasanaeth yn helpu plant sy'n mynd ar goll o adref, er mwyn eu rhwystro rhag mynd yn rhan o rywbeth peryglus fel cyffuriau neu droseddu. Cyn Barnardo's, nid oeddwn yn teimlo fel byw a theimlwn y byddai'r byd yn well lle hebof fi. Roeddwn yn ddig ac yn anhapus ar y pryd. Teimlwn nad oedd neb yn fy ngharu ac roedd yn gas gen i bopeth a phawb o'm cwmpas.

Gadewais adref a chymryd rhai camau peryglus, a deuthum i gysylltiad â'r heddlu. Ond yn ffodus i mi, wedyn cefais fy nghyfeirio at Barnardo's.

Mae mynd at Barnardo's am gwnsela wedi bod yn brofiad da iawn i mi. Mae wedi rhoi i mi rywun i siarad ag ef, rhywun a oedd â diddordeb ynof fi; rhywun a oedd yn gwrando arnaf oherwydd eu bod eisiau gwneud ac nid oherwydd bod yn rhaid iddynt wneud.

Rwy'n teimlo'n llawer gwell yn awr ac mae'r diolch am hynny'n mynd i Anne Gill, y gweithwr Barnardo's a oedd yno i mi. Ni wn beth y byddwn wedi'i wneud hebddi na ble byddwn i heddiw.

Nawr mae gennyf ddyfodol disglair o'm blaen ac un diwrnod rwy'n gobeithio bod yn dwrnai. Byddaf yn nosbarth chweched dosbarth fy ysgol yr amser hwn y flwyddyn nesaf ac unwaith eto mae'r diolch am hyn oll yn mynd i Anne ac i Barnardo's.

Zainab

Zainab, 15 oed
Gwasanaeth Missing,
Barnardo's Swydd Efrog

Croeso gan Martin Narey

Mewn amseroedd caled, y rheini sydd gan leiaf sy'n dioddef fwyaf. Dyna pam y bu gwaith Barnardo's yn bwysicach nag erioed yn 2008/09.

Mae dros 100,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd wedi elwa'n uniongyrchol oddi wrth ein gwaith yn eu cymunedau o amgylch y DU. Diolch i'n cefnogwyr ac i'n partneriaid statudol, rydym wedi agor dros 30 o brosiectau newydd i gyrraedd rhai o'r plant mwyaf agored i niwed – gan gynnwys y rheini y mae trais yn y cartref yn effeithio arnynt, y rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig, pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu – a theuluoedd mewn argyfwng (gweler tudalen 4).

Ac wrth i'n prosiectau weithio'n lleol i drawsnewid bywydau pobl, mae ein gwaith ymgyrchu cenedlaethol wedi parhau i wneud i'r rheini sydd mewn grym wrando. Un esiampl wych yw'r pwysau yr ydym wedi'i roi ar y Llywodraeth i roi diwedd ar dlodi ymysg plant. Un o uchafbwyntiau'r gwaith hwn oedd yr orymdaith Cadw'r Addewid yn Sgwâr Trafalgar ym mis Hydref 2008 (tudalen 12), lle daeth dros 2,000 o staff, defnyddwyr gwasanaeth a chefnogwyr Barnardo's ynghyd.

Bu i ni gynyddu ein proffil ymhellach gyda hysbyseb lwyddiannus ar y teledu, Break the Cycle (tudalen 6). Arweiniodd yr ymgyrch bwerus hon at gynnydd o 33% mewn ymwybyddiaeth ddigymell o Barnardo's.

Ymysg ein llwyddiannau yn codi arian y mae Taith Gerdded Fawr Barnardo's i Blant Bach (tudalen 9), daeth dros 400,000 o blant i gymryd rhan yn hon. Mae ein partneriaeth gyda Grwp y Post Brenhinol (tudalen 9) hefyd wedî ffynnu a bu i'n hadain Adwerthu a Masnachu ddyblu ei helw ar y flwyddyn diwethaf.

Llwyddiant arall fu ein cynllun ennill profiad i wirfoddolwyr (tudalen 11), cynllun sy'n cael ei alw yn awr yn Gynllun Llwybrau i Wirfoddoli, gan helpu pobl ifanc i fynd ar yr ysgol yrfa. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd y cynllun yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lloyds Banking Group a sefydliad gwirfoddoli **v**.

Wrth i ni nesáu at flwyddyn derfynol *Cynllun Busnes 2007/10 Barnardo's*, rydym mewn sefyllfa dda i gyrraedd y nodau y gwnaethom eu gosod i ni ein hunain yn 2007. Mae ein hamcanion ar gyfer 2009/10 yn cynnwys:

- gwneud ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn fwy effeithiol
- cyrraedd ein targed o 20 o welliannau mewn polisïau teuluoedd a phlant y Llywodraeth erbyn 2010
- cefnogi cynifer o'r plant mwyaf difreintiedig ag y mae ein hadnoddau yn ei ganiatáu.

Mae pethau'n argoeli'n dda iawn. Dymuniadau gorau am flwyddyn ardderchog.

Martin Narey

Martin Narey
Prif Weithredwr, Barnardo's

Ein gwaith gyda phlant

Diolch i'n cefnogwyr, y flwyddyn diwethaf helpodd Barnardo's dros 100,000 o blant a phobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd mewn 415 o brosiectau mewn cymunedau lleol ar draws y DU ...

Prosiectau newydd

Y flwyddyn diwethaf, cododd nifer prosiectau Barnardo's o 383 i 415. Fe wnaethom ymestyn ein cwmpas i ardaloedd newydd o'r DU gan ehangu ystod y gwasanaethau yr ydym yn eu cyflwyno i blant ar draws yr amrywiol oedrannau.

Yn Swydd Buckingham llwyddom i sicrhau £3.5 miliwn i ddarparu 11 o Ganolfannau Plant yn y sir. Bu i Barnardo's hefyd gynyddu nifer y prosiectau hyfforddiant yr ydym yn eu cyflwyno. Ymysg y rhain y mae Works Highlands and Islands Barnardo's, a agorodd ym mis Awst, i helpu pobl ifanc i oresgyn y rhwystrau rhag gwaith drwy gyfrwng lleoliadau yn y gweithle a chefnogaeth bersonol.

Ymysg gwasanaethau newydd eraill y mae Defuze yn Coventry sy'n gweithio gyda phlant y mae trais yn y cartref yn effeithio arnynt, a Havering Young Carers, sy'n helpu plant sy'n gofalu am aelod o'r teulu.

Mae Barnardo's yn dal i gynyddu amrywiaeth y gwasanaethau cymorth i deuluoedd yr ydym yn eu cyflwyno mewn cymunedau lleol, ac mae'r gwasanaethau hyn yn rhwystro teuluoedd rhag chwalu a rhag bod plant yn gorfod mynd i ofal. Crëwyd Gwasanaeth Cymorth Teulu Dwys Leeds i weithio gyda theuluoedd mewn argyfwng a bu i ni lansio gwasanaeth Cynadleddau Grŵp i Deuluoedd Manceinion, sy'n caniatáu i deuluoedd gynllunio ar gyfer sut y byddant yn cynorthwyo plentyn gyda Chynllun Amddiffyn Plant.

Gwaith arloesol

Mae Barnardo's wedi ymrwymo i archwilio ffyrdd newydd o ennyn y gorau mewn plant. Y flwyddyn diwethaf, bu i ni ymestyn ein gwaith magu plant arloesol gyda thadau drwy'r prosiect newydd Camden Dads. Mae gwasanaeth newydd yng Nglasgow, Promoting and Achieving Change, yn gweithio gyda phobl ifanc yn eu harddegau sydd mewn perygl o redeg i ffwrdd o adref ac ymwneud â throseddu a chamddefnyddio sylweddau.

> *Pan mae pobl ifanc yn dweud wrthych y byddent wedi marw heblaw am Barnardo's, sut y gallech chi roi'r gorau i godi arian?*
>
> Liz Singer, gwirfoddolwr, Cadeirydd y Bwrdd Cynghori ar Apeliadau

Ennill gwaith newydd

Un o gryfderau Barnardo's yw ein gallu i ddarparu ymateb cyflym i blant a theuluoedd mewn angen. Yn 2008/09 enillom gontract £1.5 miliwn yn Dorset i gyflenwi gwaith magu plant er mwyn galluogi'r disgyblion mwyaf difreintiedig i gael mynediad llawn at gyfleoedd addysgol. Gwelodd Barnardo's hefyd gynnydd yn nifer y gwasanaethau yr ydym yn eu cyflwyno i blant anabl a'u teuluoedd. Llwyddodd ein gwasanaeth BARN yn Swydd Efrog, sy'n rhoi cefnogaeth gymunedol i blant anabl, i ennill gwaith i gyflenwi gweithgareddau gwyliau yn East Riding.

Helpu plant i gyflawni eu potensial

Y dechrau'n unig yw creu gwasanaethau newydd. Ein hethos yw credu mewn plant a'u helpu i gyflawni eu potensial. Rydym yn falch o bob dim y mae ein defnyddwyr gwasanaethau yn ei gyflawni, gan gynnwys:

Daeth John Joe Burns (16) a Tracey Lane (17) yn fuddugol drwy Iwerddon gyfan yn adran Gwobrau Gallu yn yr arddangosfa arlwyo flynyddol, CATEX. Mae'r ddau'n cael eu hyfforddi ym mwyty Dr B's ym Melfast, sy'n un o brosiectau hyfforddiant Barnardo's.

Bu i ffilm a wnaed gan bobl ifanc o Fife a oedd yn mynychu gwasanaeth Levenmouth Links Barnardo's gipio'r wobr gyntaf mewn seremoni wobrwyo ffilmiau a gynhaliwyd yn Llundain. Enwebwyd y ffilm *Doodle Disaster* yn y categori'r Antur Ffantasi Orau yn yr Activision First Light Movies Awards.

Enillodd Chess Law gategori Barnardo's yng Nghystadleuaeth Farddoniaeth Buxton 2009. Enillodd y ferch 11 mlwydd oed, sy'n mynychu Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Barnardo's yng Ngogledd Iwerddon, y categori gyda'i cherdd *Stone of Silver*, a chafodd ei harddangos yng Ngŵyl Buxton ym mis Gorffennaf.

Mae Luke Smith a Luke Wells, y ddau yn 16 oed, yn hyfforddeion yng Ngwasanaethau Hyfforddiant Lincs Barnardo's. Cafodd eu gwaith yn mentora plant ysgol lleol ei wobrwyo gyda Chymeradwyaeth Arbennig y Beirniaid yng Ngwobrau Blynyddol Adeiladwr Ifanc y Flwyddyn yn Nhŷ'r Cyffredin.

Torrwr record!

Llwyddodd Barnardo's i gynyddu ei broffil ymhellach gyda'r hysbyseb deledu lwyddiannus, Break the Cycle, yn 2008/09

Llwyddodd Barnardo's i ennyn ymwybyddiaeth a chefnogaeth o'r newydd a chwbl hanfodol drwy ein hysbyseb gyntaf ar gyfer teledu'r prif ffrwd, Break the Cycle.

Dangoswyd yr hysbyseb fuddugol i ddechrau rhwng mis Tachwedd a Rhagfyr 2008 ac yna fe'i dangoswyd rhwng mis Mehefin a Gorffennaf 2009, gan amlygu'r cylch tlodi, camdriniaeth a gwahaniaethu sy'n arwain llawer o blant a phobl ifanc at ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrwblus. Bu i'r hysbyseb, a'r gweithgaredd ymgyrchu Plant Mewn Trwbl ategol alluogi Barnardo's i herio'r arfer cynyddol o gythreulio plant heddiw gan amlygu sut y gall ein gwaith helpu i dorri'r cylch anfantais.

'Llwyddodd yr ymgyrch hysbysebu i roi hwb i sefyllfa Barnardo's fel elusen fodern, berthnasol a chyfoes, sy'n mynd i'r afael â materion mwyaf taer y dydd sydd ohoni i blant a phobl ifanc,' meddai Diana Tickell, Cyfarwyddwr Cyfathrebu'r DU.

Cylch bywyd

Cyflawniadau allweddol yr ymgyrch:

- cynnydd o 33% mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus ddigymell o Barnardo's
- nifer y bobl sy'n debygol/yn debygol iawn o roddi i Barnardo's yn codi 46%
- cydnabyddiaeth o is-bennawd Barnardo's, Credwch Mewn Plant, yn cynyddu 51%
- Barnardo's yn cael dros 400 o ddarnau o sylw gan y cyfryngau, gan gynnwys ar raglen *Today* BBC Radio 4 a *Newsnight* BBC2.

Rydych yn ceisio'r plant anoddaf yn y sefyllfaoedd anoddaf, fel arfer ar ôl i bawb arall roi'r ffidil yn y to, yna dangos cymaint o gariad a dealltwriaeth fel eich bod yn llwyddo i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau go iawn.

Jeff Lynn, Cefnogwr Barnardo's (Rhedwr ym Marathon Llundain)



■ **LLOEGR**

‘Pe na bawn i wedi dod yma, byddwn yng ngorsaf yr heddlu erbyn nawr…’

Stori Lewis: Ymyrryd yn gynnar i helpu plant mewn trwbl

Daw Lewis, 12, o deulu o wyth o blant. Bedair blynedd yn ôl pan oedd Lewis ond yn wyth, gadawodd ei dad gartref y teulu, gan adael ei fam i ymdopi ar ei phen ei hun. Yn fuan wedyn, dechreuodd Lewis gamymddwyn yn yr ysgol.

‘Roeddwn i’n ddrwg – roeddwn yn gorfod aros ar ôl ysgol bob dydd a chefais fy nhaflu allan o dair ysgol,’ esbonia Lewis. ‘Roeddwn yn teimlo’n flin gyda’r athrawon ac yn ddig pan nad oeddwn yn yr ysgol.’

Cadwyd Lewis allan o’r ysgol am dair blynedd pan gynigwyd iddo le yn High Close School Barnardo’s, yma, fe wnaeth y sylw unigol oddi wrth y staff helpu Lewis i ymgartrefu, rhywbeth nad oedd yn gallu ei wneud yn y system ysgol draddodiadol. Mae’n awr yn ddisgybl disglair.

‘Pe na byddwn wedi dod yma, byddwn yng ngorsaf yr heddlu erbyn nawr oherwydd fy mod mor ddrwg,’ mae’n cyfaddef. ‘Mae Barnardo’s wedi fy helpu i aros yn y dosbarth, stopio rhegi... maen nhw’n eich canmol am wneud pethau da ac mae hynny’n gwneud i mi deimlo’n hapus iawn.’

Mae gwaith prosiectau Barnardo’s fel High Close School yn Wokingham yn dangos sut y credwn mewn plant, ni waeth beth y maent wedi’i wneud.

Prosiect buddugol

Llwyddodd prosiect Barnardo's Time for Me, sy'n helpu plant y mae camddefnyddio cyffuriau ac alcohol gan eu rhieni yn effeithio arnynt, i ennill y teitl Iechyd a Lles yng Ngwobrau Cenedlaethol 2009 Health for Kids. 'Mae Time for Me yn cynnig i'r plant le i gael hwyl oddi wrth eu pryderon dydd i ddydd,' meddai Estelle Hamblett, gweithiwr prosiect yn y gwasanaeth a leolir yng nghanoldir Lloegr.

Rwyf wir wedi mwynhau gwirfoddoli i Barnardo's, mae wedi ehangu fy mhrofiadau ac roedd rhoi rhywbeth yn ôl yn wobrwyol iawn.

Will Stevens,
Partner Rheoli,
Academy LLP

Digwyddiad maethu a mabwysiadu cyntaf

Llwyddodd Wythnos Maethu a Mabwysiadu gyntaf Barnardo's i ddenu mwy o ofalwyr i'n gwasanaethau lleoli gyda theulu...

Mae dros 64,000 o blant mewn gofal yn y DU a cheir prinder aruthrol o 10,000 o ofalwyr. Nod Wythnos Faethu a Mabwysiadu gyntaf Barnardo's oedd denu mwy o ofalwyr i'n gwasanaethau lleoli gyda theulu, yn benodol i ofalu am blant duon a lleiafrifoedd ethnig, a phlant anabl. Cynhaliwyd sesiynau gwybodaeth yn siopau Barnardo's i esbonio beth y mae'n ei olygu dod yn ofalwr, a siaradodd y seren trin gwallt Andrew Barton am ei brofiad yn cael ei fabwysiadu.

Siopau sydyn

Manteisiodd adain adwerthu Barnardo's ar y galw am ffasiwn dillad *vintage* drwy agor siop ddillad sydyn ar Stryd Carnaby Llundain. Cododd y siop dros dro dros £33,000 rhwng mis Tachwedd 2008 a mis Mawrth 2009 ac arweiniodd hyd yn oed at agor siop thema 1960au arall ym mis Mehefin fel rhan o ŵyl 'Stori Llundain' Maer Llundain. Yn y cyfamser, roedd y siop yn lle perffaith i Heather Small, Mark Foster, Nicky Hambleton-Jones a Laura Bailey fynd y tu ôl i'r cownter i ddarbwyllo mwy o wirfoddolwyr i helpu mewn siopau Barnardo's ar draws y DU.

Ymuno â Grŵp y Post Brenhinol

Cafodd partneriaeth Barnardo's gyda Grŵp y Post Brenhinol gychwyn campus gyda llu o gynlluniau codi arian a gwirfoddoli. O addurno i arddio, bu timau o wirfoddolwyr RMG yn dangos eu hymrwymiad i ennyn y gorau mewn plant drwy helpu yn ein prosiectau ar draws y DU. Hefyd, rhoddwyd profiad gwaith i bobl ifanc mewn prosiectau Barnardo's yng Ngwanolfannau'r Post Brenhinol yn Lerpwl a Manceinion. Mewn Swyddfeydd Post, gallai cwsmeriaid roddi eu harian tramor er budd Barnardo's, ac o fis Mehefin 2009 ymlaen, gallent roi rhodd i Barnardo's yn uniongyrchol dros y cownter. Nod y bartneriaeth yw codi arian sylweddol ar gyfer Barnardo's.

Plant bach yn dal i ddod yn ôl am ragor

Digwyddiad codi arian mwyaf y DU i rai dan 5 oed oedd y ffefryn o hyd ar gyfer codi arian yn 2009, gyda phlant o bob cwr o'r DU yn cofrestru i wneud taith noddedig fer fel rhan o Daith Gerdded Fawr Barnardo's i Blant Bach. Cofrestrodd dros 400,000 o blant ar gyfer y drydedd ar ddeg Daith Gerdded i Blant Bach flynyddol, a oedd â tharged o £1.54 miliwn i'w gyrraedd, bron £250,000 yn fwy na'r cyfanswm yn 2008. Dan nawdd Fairy Non Bio Gel a gyda chefnogaeth gan Organix, roedd y Daith Gerdded Fawr i Blant Bach yn 2009 hefyd yn cynnwys mwy o ddigwyddiadau nag erioed wedi'u trefnu gan Barnardo's.

Mae Grŵp y Post Brenhinol yn falch o gefnogi Barnardo's a'i waith hanfodol i weddnewid bywydau plant a phobl ifanc agored i niwed.

Adam Crozier,
Prif Swyddog Gweithredol,
Grŵp y Post Brenhinol

Arwr High Close

Cafodd Samantha Nosal, sy'n athrawes yn Ysgol High Close Barnardo's, ei henwi fel Athro Anghenion Arbennig y Flwyddyn yn ne Lloegr yng Ngwobrau Addysgu 2009. Mae'n gweithio gyda disgyblion sydd ag anawsterau dysgu.

Llygedyn o olau

Roedd Barnardo's yn falch iawn o elwa o'r arddangosfa *Simply Madonna, Materials of the Girl,* a gynhaliwyd yn yr Old Truman Brewery yn Llundain yn 2009. Roedd un bunt o bob tocyn a werthwyd yn mynd i Barnardo's.

YR ALBAN

‘Mae Barnardo’s wedi rhoi cyfle gwych i mi …’

Stori Barry: helpu pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant

‘Cyn i mi ddod i wybod am Barnardo’s doedd pethau ddim yn dda iawn i mi,’ meddai Barry o Dundee. ‘Roeddwn i wedi cael llond llaw o swyddi bychan ond wnaethon nhw ddim arwain at ddim. Aeth pethau ar i lawr yn aruthrol pan fu farw fy mam. Am dipyn, allwn i ddim meddwl am waith nac am y dyfodol. Pwy a ŵyr ble byddwn i wedi bod yn byw yn y tymor hir?’

Llwyddodd Works Dundee Barnardo’s i gael lle i Barry ar gynllun hyfforddiant darllen mesuryddion gyda Scottish and Southern Energy plc. Er gwaethaf yr ofnau ei fod yn rhy swil i ymdopi, daeth y cyswllt gyda’r cwsmeriaid â Barry allan o’i gragen, ac mae wedi arwain at brentisiaeth.

‘Mae Barnardo’s wedi rhoi cyfle gwych i mi. Mae’r brentisiaeth hon yn golygu pob dim i mi. Rwyf eisiau i’m dyfodol fod yn hapusach. Rwyf eisiau cael bywyd arferol gyda thŷ, car a theulu. Dyma fy ngobaith i wneud i bethau ddigwydd.’

Un yn unig o brosiectau Barnardo’s sy’n helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau i ddod o hyd i swydd yw Works Dundee.

Cynllun ennill profiad ar gyfer gwaith gwirfoddol yn bwrw'n ei flaen!

Bu i gynllun ennill profiad i wirfoddolwyr Barnardo's recriwtio 98 o wirfoddolwyr ifanc i weithio yn Barnardo's ar leoliadau tri mis. Helpodd y llefydd hyfforddi ni gyda'n gwaith gyda phlant agored i niwed, a chawsant brofiad gwaith gwirioneddol.

Yng Ngwobrau 2009 y Cyngor Profiad Gwaith Cenedlaethol, enillodd Barnardo's eto'r wobr Canmoliaeth Uchel yng nghategori'r darparwr profiad gwaith gorau mewn sefydliad elusennol.

Mae'r cynllun wedi parhau i ddenu rhagor o geisiadau nag o'r blaen ac mae'n awr yn ymddangos yng nghynllun newydd y Llywodraeth, y Gronfa Doniau Graddedigion, fel cyfle i helpu graddedigion i gael mynediad i'r sector elusennol.

Dros y ddwy flynedd nesaf, caiff y cynllun ei ariannu ar y cyd gan Lloyds Banking Group a'r mudiad gwirfoddoli **v,** ac fe'i gelwir yn Gynllun Llwybrau i Wirfoddoli, er mwyn pwysleisio'i nod i ddarparu llwybr clir i gyflogaeth drwy gyfrwng cyfleoedd gwirfoddoli gwobrwyol a llawn her.

Rhedwyr rhagorol y Marathon

Mentrodd dros 160 o bobl ragorol i'r strydoedd ar gyfer Marathon Flora Llundain i redeg ar ran Barnardo's. Treuliodd ein rhedwyr fisoedd yn hyfforddi ac yn codi arian ar gyfer y digwyddiad. Llwyddasant i godi cyfanswm aruthrol, sef £325,000 ar gyfer gwaith Barnardo's.

"Mae cwrdd â rhai o'r bobl sy'n gweithio gyda phlant Barnardo's yn wefreiddiol. Mae'n wych gweld yr hyn y mae Barnardo's yn ei wneud."

Llywydd Barnardo's,
EHB Duges Cernyw

Bancio ar RBS

Codwyd dros £103,000 ar gyfer gwaith Barnardo's gan staff o'r Royal Bank of Scotland Group yn 2008/09. Rhoddodd ein sialensiau codi arian a gwirfoddoli gyfle i 1,700 o staff RBS wella'u sgiliau gwaith tîm.

Cefnogi plant agored i niwed

Mae dylanwad gwaith ymgyrchu Barnardo's yn eithriadol, gan sicrhau newidiadau gwirioneddol i wella bywydau plant dan anfantais...

Rhoi mwy a mwy o bwysau i roi diwedd ar dlodi ymysg plant

Yn 1999, gwnaeth y Llywodraeth addewid hanesyddol i haneru tlodi ymysg plant erbyn 2010 a chael gwared ohono'n llwyr erbyn 2020. Eleni, pentyrrodd Barnardo's y pwysau er mwyn i'r Llywodraeth lynu wrth ei tharged ar gyfer 2010 gyda chyfres o ddigwyddiadau ymgyrchu ac adroddiadau dylanwadol.

Ymysg y digwyddiadau'r oedd gorymdaith Cadw'r Addewid ym mis Hydref 2008, lle daeth dros 2,000 o staff a chefnogwyr Barnardo's ynghyd. Cyn yr orymdaith, cyfarfu'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Gordon Brown, AS, â chynrychiolwyr o'r Glymblaid i Roi Diwedd ar Dlodi ymysg Plant, i ailddatgan addewid y Llywodraeth i roi diwedd ar dlodi ymysg plant. Fe wnaethom barhau i bwyso am fwy o fuddsoddiadau yng Nghyllideb 2009 tuag at yr ymrwymiad



hwn, drwy daflunio plê anferthol ar y Marble Arch yn ystod y cyfnod yn union cyn y Gyllideb (uchod).

Cefnogwyd ein lobïo gan yr adroddiad, Below the Breadline: *A year in the life of families living in poverty in the UK*, a ddisgrifiai'r modd y mae teuluoedd yn gorfod dewis rhwng gwresogi a bwyta gan ddibynnu ar gwmnïau benthyca sy'n

Gofalu am y plant angof

Sicrhaodd Barnardo's chwe newid mewn polisïau a deddfwriaeth yn 2008/09. Yn benodol, sicrhaom newidiadau i blant mewn gofal, gan gynnwys gwell cefnogaeth iddynt fynd i'r brifysgol ynghyd â gofyniad statudol yn y Mesur Plant a Phobl Ifanc i sicrhau y ceir athro dynodedig ym mhob ysgol ar gyfer plant mewn gofal.

> *Pan gaiff plant eu geni i deuluoedd trwblus neu pan gaiff eu bywydau'u chwalu, Barnardo's yw'r cyntaf i estyn llaw iddynt i'w cynorthwyo.*
>
> Nina Wadia, actores ar *EastEnders*

GOGLEDD IWERDDON

‘Rwy’n teimlo’n gas oherwydd na all fy mhlant i gael yr hyn sydd gan blant eraill…’

Teulu Jane: Helpu teuluoedd mewn tlodi

Mae Jane yn magu pump o blant ifanc ac mae’n teimlo ei bod wedi cael ei gorfodi i ddyled er mwyn eu cynnal. Byddai Jane yn hoffi gweithio, ond ni all fforddio gofal plant, felly mae ei theulu yn byw ar fudd-daliadau ac mae Jane yn dibynnu’n drwm ar nifer o fenthyciadau. Mae ei ddiffyg pres a’i phryder am ddyled yn aml yn gwneud iddi deimlo’n isel, oherwydd ei bod yn teimlo nad yw’n cynnig i’w phlant y bywyd y byddai’n ei ddymuno iddynt.

‘Rwy’n gwylio pob dimai goch,’ meddai. ‘Rwyf wedi cael adegau pan na fu gen i ddigon o arian i brynu bwyd i mi a’r plant... Byddwn i’n cael tafell o dost ac yn rhoi pryd o fwyd iawn iddyn nhw.’

Mae Jane yn defnyddio gwasanaeth teulu Barnardo’s am gefnogaeth, cyngor ariannol a meithrinfa y gall hi ei fforddio ar gyfer ei phlant. Mae’n dweud mai ei hunig gyfeillion gwirioneddol yw’r menywod a’r staff y mae wedi eu cyfarfod yno: ‘Nhw yw fy achubiaeth... nhw sy’n fy nghadw yn fy iawn bwyll.’

Mae prosiectau gwrthdlodi Barnardo’s yn gweithio mewn cymunedau, gan gynnig popeth o glytiau cost isel i gyrsiau i helpu rhieni i ddychwelyd i waith. Mae’r rhieni sy’n mynychu’n dweud eu bod yn teimlo’n llai ynysig ac yn fwy gobeithiol ar gyfer y dyfodol.

Ail gyfleoedd

Canolbwyntiodd Barnardo's ar wella cyfleoedd i'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn gwaith, addysg na hyfforddiant.

Bydd Deddf Addysg a Sgiliau 2008 yn mynnu bod pobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed yn Lloegr yn aros mewn addysg neu hyfforddiant hyd at eu deunawfed pen-blwydd. Yn 2008/09 bu Barnardo's yn lobïo i sicrhau bod y ddeddf newydd yn gwella cyfleoedd i bobl ifanc agored i niwed - gyda llawer ohonynt yn cael eu gwahardd o'r ysgol, yn gadael yn 16 neu'n gynt, gydag ond ychydig o gymwysterau a rhagolygon gwael.

Roedd adroddiad a DVD Barnardo's, *Second Chances*, yn dangos gwaith ymchwil gyda 75 o bobl ifanc a oedd yn mynychu gwasanaethau Barnardo's. Roedd y bobl ifanc hyn yn llawn cymhelliant i weithio, ond roeddent yn cael eu dal yn ôl gan rwystrau megis diffyg hunan hyder, gofalu am blentyn neu anawsterau tai.

Mae ein lobïo wedi talu ar ei ganfed ac ymysg newidiadau

eraill, llwyddom i ennill diwygiad i'r Mesur Addysg a Sgiliau, gan gyflwyno 'contractau dysgu a chefnogi' i bobl ifanc sydd ag anghenion cefnogaeth nad ydynt yn cael eu bodloni ac sydd o bosib yn tanseilio'u cyfranogaeth mewn addysg a hyfforddiant.

Herio'r cynnydd mewn plant yn y ddalfa

Mae defnyddio'r ddalfa ar gyfer plant rhwng 10 ac 14 mlwydd oed wedi cynyddu 500% er 1996 ac maent yn cael eu rhoi dan glo am droseddau llai difrifol. Roedd adroddiad Barnardo's, *Locking up or giving up?*, yn dadlau bod caethiwo'r grŵp oedran hwn yn aneffeithiol ac yn ddrud ac y dylem ymyrryd yng'hynt er mwyn cefnogi'r plant hyn a'u teuluoedd. Bu Martin Narey yn trafod y mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Cyfiawnder y Gwir Anrhydeddus Jack Straw, AS, yng Nghynhadledd y Blaid Lafur yn 2008.

> *Heddiw, mae Barnardo's yn dal i chwarae rôl hanfodol; fel sefydliad sy'n ymgyrchu, yn dylanwadu ar bolisïau, ac fel darparwr gwasanaethau.*
>
> Y Gwir Anrhydeddus Ed Balls, AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd

CYMRU

‘Rwy’n hoffi’r awyrgylch yma. Mae’n teimlo’n groesawgar iawn…’

Stori Saadia: Helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd o gymunedau amrywiol

Mae Saadia yn fam-gu go wahanol. Mae’n ofalwr amser-llawn ar gyfer ei ŵyr, Buraq, y mae ei rieni’n dal yn Irac. Mae Saadia hefyd yn gofalu am Amani sy’n ddwy oed ac Akram sy’n wyth mis oed yn ystod y dydd, tra bod eu rhieni’n gweithio. Cyrhaeddodd Gaerdydd dair blynedd yn ôl.

Nid yw Saadia yn siarad dim Saesneg, dim ond Arabeg, a gwnaeth hyn bethau’n anodd iddi fynd â’r plant i grwpiau chwarae. Canfu nad oedd rhai grwpiau hyd yn oed eisiau rhoi enw Buraq yn eu llyfrau. Yn ffodus, cynigiai Prosiect Stryd Neville Barnardo’s groeso cynnes iddynt a gwasanaeth cyfieithu a oedd yn darparu ar gyfer 19 o ieithoedd.

‘Rwyf yn hapus iawn yn Stryd Neville,’ meddai Saadia. ‘Mae’r staff yn gofalu am y plant yn dda iawn ac yn eu haddysgu. Rwy’n hoff o’r awyrgylch yma; mae’n teimlo’n groesawgar iawn. Mae Amani yn gofyn i mi ddod â hi yma o hyd.’

Mae gwaith prosiectau fel Stryd Neville yn dangos ein bod wedi ymrwymo i gynnal a datblygu ein gwaith gyda phlant duon a lleiafrifoedd ethnig.

Cyflawni ein hamcanion

Yn Adolygiad Blynyddol 2008, gosododd Barnardo's naw amcan penodol ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2009. Yma rydym yn mesur ein llwyddiant...

1

'Cynyddu'r incwm a gynhyrchir o ffynonellau statudol megis awdurdodau lleol a'r Llywodraeth 4.5 y cant, fel y gallwn helpu mwy o blant.'
Llwyddom i ragori ar y targed hwn a chynyddu'r incwm gan y Llywodraeth a chyrff statudol 6.4 y cant, i £126,875,000.

2

'Bydd gweithrediadau adwerthu a chodi arian yn cynhyrchu cyfraniad net o £35.3 miliwn at yr incwm, ar ôl costau hysbysu'r cyhoedd am ein gwaith.'
Dioddefodd rai meysydd codi arian yn yr hinsawdd economaidd ac ni chyrhaeddwyd y targed. Er hynny, perfformiodd Adwerthu a Masnachu yn dda gan ddyblu eu helw o'i gymharu â 2007/08.

3

'Cynyddu ein niferoedd o wirfoddolwyr gweithgar, gan gynnwys gwirfoddolwyr ifanc, 5 y cant.'
Mae nifer gwirfoddolwyr Barnardo's wedi tyfu 14.7 y cant mewn gwirionedd, gyda nifer y gwirfoddolwyr iau'n tyfu 24.3 y cant. Mae gennym yn awr dros 12,600 o wirfoddolwyr.

4

'Cynyddu perfformiad ein holl wasanaethau.'
Mae'r perfformiad wedi gwella yn holl wasanaethau Barnardo's yr ystyriwyd eu bod yn flaenorol ymysg yr 20 y cant isaf, gyda'u perfformiad yn awr ond 3 y cant yn is na pherfformiad cyfartalog Barnardo's.

5

'Sicrhau o leiaf 20 o newidiadau ym mholisïau'r Llywodraeth dros y tair blynedd nesaf, gan gynnwys o leiaf un ym mhob blwyddyn ym mhob un o'n meysydd ymgyrchu blaenoriaethol ac un ym mhob blwyddyn a fydd yn gwella'r canlyniadau i blant duon a lleiafrifoedd ethnig.'
Ym mlwyddyn gyntaf ein cynllun, cyfrannom yn uniongyrchol at 10 newid ym mholisïau'r Llywodraeth. Yn 2008, llwyddom i sicrhau chwe newid pellach, ac rydym mewn sefyllfa gyfforddus i sicrhau 20 newid erbyn 2010.

6

‘Sicrhau ymwybyddiaeth ddigymell barhaus o Barnardo’s rhwng 2008-2010.’

Ym mis Tachwedd 2008, sicrhaodd ein hymgyrch hysbysebu gyntaf ar deledu brig gynnydd aruthrol o 33 y cant mewn ymwybyddiaeth ddigymell o Barnardo’s. Cynyddodd hefyd nifer y bobl y dywedasant eu bod yn debygol o’n cefnogi 46 y cant.

7

‘Lleihau costau yn y Brif Swyddfa ac yn ein swyddfeydd cenedlaethol a rhanbarthol.’

Mae ein costau cefnogi wedi cynyddu’n arafach na’r costau cyflenwi gwasanaethau, gan arwain at fod rhagor o incwm yn cael ei wario ar helpu plant.

8

‘Mesur ein heffaith ar yr amgylchedd a gosod targedau er mwyn gwella.’

Rydym wedi ymrwymo i newid ein fflyd ceir i fodelau allyriannau isel a lleihau defnydd ynni cyfartalog pob aelod staff.

9

‘Gweithredu strategaeth cydraddoldeb hiliol ar draws holl feysydd Barnardo’s.’

Ym mis Mai 2008 lansiodd Barnardo’s y strategaeth cydraddoldeb hiliol Enacting Our Vision (EOV). Bydd EOV yn sicrhau ein bod yn gweithio’n fwy effeithiol gyda phlant a phobl ifanc o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig ac yn sicrhau amrywiaeth hiliol gynyddol ymysg gweithwyr a gwirfoddolwyr.

Gwaith Barnardo’s ar draws y DU

Y Deyrnas Unedig
100,014 o ddefnyddwyr gwasanaethau, 415 o wasanaethau



Mae’r ffigyrau defnyddwyr gwasanaethau yn cynnwys yr holl blant, y bobl ifanc a’r teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw.

Materion ariannol

Mae rhoddion yn parhau i chwarae rôl hanfodol i ariannu gwasanaethau Barnardo's. Mae hyn, gyda chefnogaeth ein partneriaid statudol, yn ein helpu i barhau i gyrraedd plant agored i niwed a dan anfantais. Mae incwm gwirfoddol yn rhoi i ni'r annibyniaeth i fodloni'r anghenion na chânt eu bodloni gan gyrff statudol

Cyfanswm incwm £214.3 miliwn



Cyfanswm gwariant £214.3 miliwn



Rhoddion gwirfoddol

Am bob **£1** a wariwn ar godi arian...



...rydym yn codi **£4.48**

Cyfanswm gwariant

Allan o bob **£1** a wariwn, mae...



...82c* yn mynd tuag at ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

* Mae hwn yn codi i **94c** os na cynhwysir costau datblygu eiddo a masnachu (mae'r ddwy elfen hon yn hunan-gyllidol).

Incwm a chodi arian

Roedd cyfanswm incwm Barnardo's yn £214.3 miliwn, o ffioedd a grantiau, rhoddion gwirfoddol o godi arian, masnachu, eiddo a buddsoddiadau

Ar ôl costau codi arian, cynyddodd yr incwm a oedd ar gael at ddibenion elusennol o £175.2 miliwn yn 2007/08 i £176.6 miliwn. O hwn, ychwanegwyd £2.3 miliwn at ein harian wrth gefn, gan adael £174.3 miliwn i'w wario ar ein gwasanaethau. O'r incwm hwn, cynyddodd y ffioedd a'r grantiau ar gyfer darparu gwasanaethau 6 y cant i £126.9 miliwn. Cynyddodd yr incwm adwerthu hefyd, gyda'r incwm net yn dyblu i £4 miliwn. Syrthiodd incwm gwirfoddol ac incwm o werthu eiddo yn ystod y flwyddyn.

Gwariant a chostau

Roedd cyfanswm y gwariant yn £212 miliwn, a defnyddiwyd £174.3 miliwn o hwn i ariannu ein gwaith gyda phlant. Gwariwyd y gweddill ar gostau codi incwm gwirfoddol o roddion cyhoeddus, adwerthu a gweithgareddau masnachu, datblygu a gwerthu eiddo a ffioedd buddsoddi.

Ein polisi o safbwynt arian wrth gefn

Gostyngodd yr arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn wrth i'n cronfa bensiwn a'n buddsoddiadau golli eu gwerth. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd yr arian wrth gefn, rhydd, digyfyngiad yn £41 miliwn, swm sy'n cyfateb i ychydig dros ddau fis o'r gwariant blynyddol.

Gair neu ddau am y wybodaeth hon

Cymerwyd y wybodaeth ariannol gryno hon o'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol statudol ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2009, dogfen y cyflwynwyd arni farn archwilio ddiamwys. Mae copïau ar gael oddi wrth Brif Swyddfa Barnardo's neu ar www.barnardos.org.uk

Amcanion 2009/10

Yn ystod blwyddyn olaf *Cynllun Busnes 2007/10 Barnardo's*, byddwn yn parhau i adeiladu ar y llwyddiant yr ydym eisoes wedi'i gael yn mynd ar drywydd ein chwe amcan strategol...

1. **Nid da lle gellir gwell: gwneud ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn fwy effeithiol**
   Bydd Barnardo's yn cynyddu ein hincwm gan y Llywodraeth ac oddi wrth gyrff statudol o leiaf 6 y cant. Bydd y gwasanaethau sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r lefelau uchaf o arian gwirfoddol yn defnyddio 5 y cant yn llai ar yr arian gwirfoddol.

2. **Gwneud ein gwaith dylanwadu'n fwy effeithiol**
   Erbyn diwedd y Cynllun Busnes, byddwn wedi sicrhau o leiaf 20 o newidiadau ym mholisïau'r Llywodraeth. Rhwng 2009 a 2010, bydd yn sicrhau newidiadau'n benodol ym mhob un o'n meysydd ymgyrchu blaenoriaethol ynghyd â newid a fydd yn gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

3. **Adfywio brand, delwedd a hysbysebion Barnardo's**
   Yn ystod 2009/10, byddwn yn sicrhau cynnydd mewn ymwybyddiaeth ddigymell o Barnardo's sydd yn gyson yn uwch na 12 y cant.

4. **Mabwysiadu strategaethau wedi'u hadnewyddu ar gyfer cyfranogaeth a gwirfoddoli**
   Bydd Barnardo's yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr cofrestredig 5 y cant ym mhob rhanbarth a gwlad – gan ganolbwyntio'n benodol ar wirfoddolwyr iau.

5. **Gwella effeithiolrwydd a gwerth swyddogaethau cefnogi yn Barkingside a'r rhanbarthau a'r gwledydd**
   Erbyn mis Mawrth 2010 byddwn yn lleihau cyfran yr arian a gaiff ei wario ar swyddogaethau cefnogi yn y brif swyddfa ac yn y swyddfeydd rhanbarthol a chenedlaethol i 15 y cant. Byddwn hefyd yn parhau i adnewyddu ceir Barnardo's gyda modelau allyriannau

isel a gostwng yr ynni y mae Barnardo's yn ei ddefnyddio ar gyfartaledd ar gyfer pob aelod staff.

6. **Cynyddu'r elw net o godi arian a bodloni her y cwymp mewn incwm etifeddiaeth**
   Byddwn yn sicrhau cyfraniad codi arian net o £31.5 miliwn o roddion, adwerthu a masnachu, ar ôl costau hysbysu'r cyhoedd am ein gwaith.

Diolch yn fawr

Hoffai Barnardo's ddiolch i'n holl gefnogwyr, yn enwedig y rheini a restrir isod, am eu rhoddion hael yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf...

Cwmnïau Adam & Company plc ▪ AF International ▪ Aldi Stores Limited ▪ ARG ▪ Aspect Capital ▪ Barclays ▪ BBC ▪ BGC ▪ Boots UK ▪ Brindleyplace Estate Management ▪ BT Cymru ▪ Burges Salmon ▪ CBI ▪ Channel 5 Broadcasting Limited ▪ Clinton Cards PLC ▪ DHL Automotive UK ▪ Field Fisher Waterhouse LLP ▪ GlaxoSmithKline plc ▪ Hallmark Cards ▪ Harvey Nichols ▪ ITN Mark Education ▪ Jessops ▪ Lindsay Ford (NI) ▪ Lloyds Banking Group (formerly Lloyds TSB gynt) ▪ Mitchells & Butlers ▪ NatWest ▪ NEXT plc ▪ Oakapple Group ▪ Pannone LLP ▪ PricewaterhouseCoopers LLP ▪ Procter & Gamble ▪ The Royal Bank of Scotland Group ▪ Royal Mail Group ▪ SCA ▪ Scottish Enterprise ▪ Shepherd and Wedderburn LLP ▪ Speakeasy Telecom ▪ Taylor Wimpey PLC ▪ Tesco Personal Finance ▪ The Merchant Hotel ▪ Tobermore ▪ Tods Murray LLP

Ymddiriedolaethau Alexander Moncur Trust ▪ Alice Ellen Cooper Dean Charitable Foundation ▪ Bartlett Foundation ▪ BBC Children in Need ▪ Bill Brown's Charitable Settlement of 1989 ▪ Bradbury Foundation ▪ Chapman Charitable Trust ▪ City Bridge Trust ▪ Comic Relief ▪ D C Moncrieff Charitable Trust ▪ Dinning Charitable Trust ▪ Edith Murphy Foundation ▪ Four Acre Trust ▪ Fowler Smith & Jones Charitable Trusts ▪ Fulmer Charitable Trust ▪ G J & S Livanos Charitable Trust ▪ Gerald Palmer Eling Trust Company ▪ Grantham Yorke Trust ▪ Henry Smith Charity ▪ J H Bartlett Charity Trust ▪ Jack Petchey Foundation ▪ John James Bristol Foundation ▪ Lloyds TSB Foundation for Northern Ireland ▪ Lord Barnby's Foundation ▪ May & Stanley Smith Charitable Trust ▪ Mickleham Trust ▪ Norman Family Charitable Trust ▪ Ratcliffe Charitable Trust ▪ Raymond and Blanche Lawson Charitable Trust ▪ Roger De Haan Charitable Trust ▪ Ronald Cruickshanks Foundation ▪ Stonewall Park Charitable Trust ▪ The 29th May 1961 Charitable Trust ▪ The Baily Thomas Charitable Fund ▪ The Barbour Trust ▪ The Batchworth Trust ▪ The Dumbreck Charity Trust ▪ The Elstow Trust ▪ The Eveson Charitable Trust ▪ The Gannochy Trust ▪ The J H McGregor Will Trust ▪ The Kempthorne-Smith Charitable Trust ▪ The Moffat Charitable Trust ▪ The Northwood Charitable Trust ▪ The Ofenheim Charitable Trust ▪ The Robertson Trust ▪ The Sir James Knott Trust ▪ The Sir James Reckitt Charity ▪ The Sir John Fisher Foundation ▪ The W David & Sons Ltd 1965 Charitable Trust ▪ The Waterloo Foundation ▪ The Zochonis Charitable Trust ▪ Trust for Education ▪ Walter Guinness Charitable Trust ▪ Wates Foundation ▪ William Allen Young Charitable Trust

Rhoddion mewn Ewyllysiau The Estate of Malcolm John Redford ▪ Katherine Martin Charitable Trust ▪ William Belmer Rush Foundation ▪ Miss E A Pemberton-Barnes Will Trust

Rheolwr Olygydd: Seth Edwards. Dylunydd: Kate Ketcher. Golygyddion Cyfraniog: Suzanne Westbury a Dina Leifer.

Ac yn olaf...

Rydym yn ragosáu at ddiwedd y tair blynedd a gynhwysir yn y Cynllun Busnes presennol ac rydym yn prysur weithio ar sut orau i barhau â'n gwaith da, gan ei ymestyn ymhellach: ceir o hyd nifer fawr iawn o blant agored i niwed y mae Barnardo's eisiau trawsnewid eu bywydau.

Yn y drydedd flwyddyn hon o'r cynllun, mae'n bleser gennyf adrodd am gynnydd da tuag at gyflawni'r chwe amcan allweddol. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â gwneud ein gwaith yn fwy effeithiol. Ond, yr un mor bwysig, teimlwn yr her i wneud ein gwaith dylanwadu'n fwy effeithiol, cynyddu ymwybyddiaeth o'n cred mewn plant, cynyddu ein sylfaen gwirfoddolwyr, codi rhagor o arian a gwneud ein holl wasanaethau cefnogi'n fwy effeithlon.

Yn yr adolygiad hwn, rydym wedi rhoi cipolwg ar ein cynnydd sylweddol.

Ar gyfer y dyfodol, edrychaf ymlaen at Gynllun Busnes wedi'i adnewyddu a'i ymestyn, cynllun sy'n cael ei sbarduno gan feini prawf busnes craidd, ond nad yw byth yn gwyro oddi ar ganolbwynt ei genhadaeth a bob amser wedi ymrwymo iddo. Drwy ddweud canolbwynt ein cenhadaeth, yr hyn rwyf yn ei olygu yw bod yn driw i'n gwerthoedd. Nid ydym byth yn troi cefn ar blant; byddwn yn parhau i ennyn y gorau ym mhob plentyn; byddwn yn annog pawb yr ydym yn gweithio gyda nhw i gyflawni'i botensial: plant, staff, gwirfoddolwyr; a chredwn y gallwn wneud gwahaniaeth – bod dyfodol gwell yn werth anelu amdano. Rhaid i ni fod yn stiwardiaid cyfrifol dros ein hadnoddau ac mae hyn yn golygu mynd i'r afael â'n cenhadaeth mewn modd cwbl ddiwastraff.



Geoffrey Barnett
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr,
Barnardo's

Sut i gysylltu â ni

Prif Swyddfa
Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex
IG6 1QG
Ffôn: 020 8550 8822

Gogledd Iwerddon
542/544 Upper Newtownards Road,
Belfast BT4 3HE
Ffôn: 028 9067 2366

Yr Alban
235 Corstorphine Road, Caeredin
EH12 7AR
Ffôn: 0131 334 9893

Cymru
Llys Trident, Heol East Moors, Caerdydd
CF24 5TD
Ffôn: 029 2049 3387

Llundain, Dwyrain a De-ddwyrain Lloegr –
Ffôn: 020 8551 0011

Canoldir Lloegr – Ffôn: 0121 550 5271

Gogledd Ddwyrain Lloegr – Ffôn: 0191 240 4800

Gogledd Orllewin Lloegr – Ffôn: 0151 488 1100

De Orllewin Lloegr – Ffôn: 0117 937 5500

Swydd Efrog – Ffôn: 0113 393 3200

Cafodd *Adolygiad Blynyddol* Barnardo's ei argraffu ar bapur ecogyfeillgar, gyda'r mwydion yn cael eu darparu o fforestydd a gaiff eu hadnewyddu a'u rheoli'n ofalus. Mae Barnardo's yn glynu wrth ganllawiau'r Bwrdd Safonau Codi Arian a'r Addewid Codi Arian. Rhif Cofrestru Elusen Barnardo's 216250 ac SC037605. Rhif Cofrestru'r Cwmni 61625

Cefnogwch ein gwaith os

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

- Rhoi **rhodd** ariannol reolaidd neu unwaith-ac-am-byth, naill ai ar-lein, dros y ffôn neu drwy'r post.
- **Gwirfoddoli** yn un o siopau, swyddfeydd neu brosiectau Barnardo's.
- Cynnwys **rhodd yn eich Ewyllys.**
- Cymryd rhan mewn **her-ddigwyddiad** neu ymuno â **grŵp codi arian.**
- Cefnogi ein **siopau** drwy roi eich nwyddau diangen.
- Annog eich **cwmni** i fod yn gefnogwr corfforaethol i Barnardo's.
- Rhoi un o **Anrhegion Go Iawn Barnardo's** fel anrheg pen-blwydd, priodas neu ben-blwydd priodas.

Mae rhagor o ffyrdd o gefnogi ein gwaith i'w gweld yn **www.barnardos.org.uk**